

HYSBYSIAD AM YMGYNGHORIAD STATUDOL GAN GYFLOGWYR YNG NGHYSWLLT USS

CEFNDIR

Ar sail asesiad helaeth, a thrafodaeth gyda chyflogwyr (trwy Universities UK (UUK)) a'r Rheoleiddiwr Pensiynau, pennodd prisiad 2017 ymddiriedolwr USS fod cost parhau i gynnig y buddion a ddarperir ar hyn o bryd gan y cynllun – a gwneud iawn am ddiffyg o £7.5 biliwn yng nghyswllt pensiynau sydd eisoes wedi eu hennill – wedi cynyddu o £900 miliwn y flwyddyn.

Daeth ymddiriedolwr USS felly i'r casgliad, er mwyn cynnal lefel gyfredol buddion a nodweddion y cynllun a mynd i'r afael â'r diffyg, fod angen codi'r gyfradd gyfraniadau gyfun sydd ei hangen gan aelodau a chyflogwyr o 11.4%, o 26% o gyflogau heddiw i 37.4%.

Am fwy o wybodaeth gan yr ymddiriedolwr am y prisiad, dylai aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fynd at y tudalennau unswydd ar wefan USS:

www.uss.co.uk/2017valuationupdates

CRYNODEB O'R NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan y newidiadau arfaethedig i gyfraniadau USS fydd yn effeithio arnoch chi:

Cyfraniadau'r aelodau i godi o 8% i 8.8% o'r cyflog o 1 Ebrill 2019 ymlaen

Codiadau pellach i gyfraniadau aelodau i'w cyflwyno'n raddol ar 1 Hydref 2019 (10.4% o'r cyflog) ac 1 Ebrill 2020 (11.7% o'r cyflog)

Byddai cyfraniadau'r cyflogwr hefyd yn cynyddu ar yr un dyddiadau

Byddai cyfatebiad y cyflogwr yn cael ei dynnu ymaith o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Byddai aelodau a ddewisodd dalu cyfraniadau cyfatebol o 1% yn parhau i wneud hynny, oni fyddant yn dewis rhoi'r gorau i dalu trwy My USS

Byddai 8% o gyfraniadau'r aelodau o gyflog uwchlaw'r trothwy cyflog yn parhau i gael eu cynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS, gyda'r swm dros ben yn cynnal buddion Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.

Y CYD-BWYLLGOR TRAFOD (JNC)

Ffurfir y JNC o bum cynrychiolydd o Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) (y corff sy'n cynrychioli aelodau USS), pum cynrychiolydd o UUK (y corff sy'n cynrychioli'r cyflogwyr) a chadeirydd annibynnol, fel y'u diffiniwyd dan reolau USS.

Dan reolau USS, y JNC sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ymdrinnir ag unrhyw gynnydd yng nghost y cynllun: naill ai trwy godiadau i'r cyfraddau cyfraniadau a/neu newidiadau i'r buddion.

Mae'r JNC wedi trafod newidiadau posib i strwythur buddion a chyfraniadau'r cynllun yn y dyfodol mewn ymateb i'r heriau hyn.

Cynigiodd newidiadau i'r buddion ym mis Ionawr 2018, ond yn dilyn trafodaethau pellach rhwng UUK ac UCU, cytunodd i dynnu'r cynigion hynny'n ôl ac ni roddwyd unrhyw gynigion amgen gerbron hyd yma.

Y PANEL ARBENIGWYR AR Y CYD (JEP)

Tynnodd y JNC ei gynigion yn ôl a chytunodd UUK ac UCU ar wahân i sefydlu Panel Arbenigwyr ar y Cyd (JEP) i asesu prisiad 2017.

Bu'r JEP yn cyfarfod ers mis Mai – yn hollol annibynnol ar y JNC – er mwyn dadansoddi sail y prisiad a chlywed gan yr ymddiriedolwr, arbenigwyr eraill, rhanddeiliaid y cynllun, a'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Mae'r JEP yn disgwyl cyflwyno ei adroddiad ar brisiad 2017 i UUK a'r UCU ym mis Medi 2018, a disgwylir i hyn fod yn sail i drafodaethau'r JNC fydd yn digwydd yn fuan wedyn.


Ar sail canfyddiadau'r JEP, gall y JNC gynnig newidiadau i'r buddion a/neu cyfraniadau a fyddai, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy gan yr ymddiriedolwr, wedyn yn destun ymgynghori pellach gan y cyflogwyr.

I gael mwy o wybodaeth gan yr ymddiriedolwr am y cynigion a dynnwyd yn ôl gan y JNC, dylai aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fynd at: <https://www.uss.co.uk/withdrawn-changes>

CYLLIDO BUDDION USS

Er ei fod yn ymwneud yn adeiladol â'r JEP, mae rheidrydd statudol ar yr ymddiriedolwr o hyd i gwblhau prisiad 2017 – ac aeth y terfyn amser i wneud hynny heibio ar 30 Mehefin 2018. Dywedodd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn glir wrth yr ymddiriedolwr a rhanddeiliaid y cynllun fod disgwyl i'r ymddiriedolwr gyflwyno cynllun credadwy am gwblhau'r broses cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib.

Er mwyn iddo wneud hynny, rhaid i'r ymddiriedolwr allu dangos i'r Rheoleiddiwr Pensiynau fod y cynllun yn gynaliadwy: fod digon o arian ar gael i dalu'r pensiynau a addawyd, neu fod cynllun credadwy ar gael i adennill unrhyw ddiffyg. Rhaid iddo hefyd ddod i gasgliad am y gofynion o ran cyfraniadau ar gyfer addewidion pensiynau at y dyfodol.



I gael mwy o wybodaeth gan yr ymddiriedolwr am gost darparu lefel bresennol y buddion, dylai aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fynd at: <https://www.uss.co.uk/6-things>

RHANNU COST

Cyflwynwyd y broses rannu cost trwy'r JNC yn 2011 (a'i ddiwygio yn 2014) ar gais UUK a'r UCU (trwy'r JNC). Dan reolau'r cynllun, mae'n broses ar gyfer delio â sefyllfa lle nad yw'r JNC yn dod i benderfyniad ar newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau, lle nodwyd diffyg cyllido, fel sydd wedi digwydd yn awr.

Ymhellach, gan bod y terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau'r prisiad bellach wedi mynd heibio, hysbysodd y Rheoleiddiwr Pensiynau yr ymddiriedolwr y dylai gyflwyno cynllun credadwy i gwblhau'r broses cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib. Ni all yr ymddiriedolwr felly aros am ganlyniad proses y JEP i gwblhau'r prisiad: mae disgwyl i'r JEP gynhyrchu adroddiad i UUK a'r UCU ym mis Medi 2018, a disgwylir i hyn fod yn sail i unrhyw drafodaethau wedi hynny gan y JNC. Byddai unrhyw newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau sy'n deillio o benderfyniad y JNC felly yn cael eu gweithredu gan USS cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ond cred ymddiriedolwr USS y gallai gymryd tua 12 mis i'w cyflwyno o fan cychwyn penderfyniad y JNC, yn dibynnu ar pa mor gymhleth fydd y newidiadau.

Oherwydd hyn ac yn niffyg penderfyniad gan y JNC, bydd y broses ddiodyn o rannu cost dan reolau'r cynllun yn rhedeg yn gyfochrog â gwaith y JEP a gweithredu unrhyw benderfyniad a ddaw gan y JNC.

Prif bwynt hyn yw y byddai cyfraniadau gan aelodau a chyflogwyr yn codi o 26% o'r cyflog (8% aelod a 18% cyflogwr) i 37.4%.

Fodd bynnag, dywed y rheolau hefyd fod yn rhaid i'r ymddiriedolwr bennu i ba raddau y mae angen gostwng cyfraniad cyfatebol y cyflogwr o 1% i Adeiladwr Buddsoddi USS er mwyn caniatáu am y codiadau angenrheidiol i gyfradd cyfraniad cronedig y cyflogwr. Mae'r cynnydd sydd ei angen i'r gyfradd gyfraniadau (i 37.4%) yn golygu y byddid yn gwneud i ffwrdd yn llwyr â chyfatebiad y cyflogwr (yn dod i rym o 1 Ebrill 2019 ymlaen). Mae hyn yn gostwng y gyfradd gyfraniadau gyfun fydd ei hangen o 37.4% i 36.6%.

Petai'n cael ei gymryd ymaith, byddai unrhyw aelodau sydd ar hyn o bryd yn cymryd y cyfatebiad yn parhau i wneud eu cyfraniad o 1% ychwanegol i Adeiladwr Buddsoddi USS, ond ni fyddai'r cyflogwyr bellach yn cyfatebu'r cyfraniadau hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Gall unrhyw aelodau sydd am roi'r gorau i wneud y cyfraniad 'cyfatebol' o 1% wneud hynny trwy ddefnyddio My USS.

Dan rannu cost, bydd y cynnydd o'r cyfraniadau presennol o 26% yn y pen draw yn cael ei rannu 35:65 rhwng aelodau a chyflogwyr yn y drefn honno – ond cofiwch edrych ar yr adran "Newidiadau i USS" ar dudalen 4 am fwy o fanylion am y modd y bwriedir gweithredu hyn yn ymarferol o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

EFFEITHIR AR GYFRANIADAU I DDWY RAN USS

ADEILADWR INCWM YMDDEOL USS

Pan fydd gweithwyr yn dod yn aelodau o USS, maent yn awtomatig yn ymuno ag Adeiladwr Incwm Ymddeol USS, adran buddion diffiniedig (BD) USS. Mae'r rhai i aelodau lefel benodedig o incwm ymddeol, seiliedig ar eu cyflog yn ystod pob blwyddyn o aelodaeth ac ers faint y buont yn aelodau.

Bob blwyddyn, mae aelodau yn ennill 1/75 o'u cyflogau (hyd at drothwy*) ac y mae eu buddion yn cael eu gweithio allan a'u 'bancio'. Fe'u cynyddir felly, yn fras yn unol â chwyddiant, bob blwyddyn ddilynol (gan gynnwys wedi iddynt ymddeol).

Pan fyddant yn ymddeol, bydd aelodau hefyd yn derbyn swm crynswth di-dreth sy'n werth teirgwaith eu pensiwn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.

*Mae'r trothwy cyflog yn cael ei ail-brisio'n flynyddol - £57,216.50 ydyw ar gyfer 2018/19.

ADEILADWR BUDDSODDI USS

Os yw aelodau yn ennill uwchlaw'r trothwy cyflog, eu bod wedi gwneud cyfraniadau ychwanegol a/neu wedi trosglwyddo cynilion pensiwn o gynllun arall ers mis Hydref 2016, mae'n debyg y byddant hefyd yn cronni buddion yn Adeiladwr Buddsoddi USS, adran cyfraniadau diffiniedig (CD) y cynllun.

Mae aelodau yn cronni arian seiliedig ar faint y maent hwy a'u cyflogwyr yn gyfrannu ac ar yr elw ar fuddsoddiadau a gynhyrchir gan y cyfraniadau hynny, namyn unrhyw gostau buddsoddi. Mae hefyd yn rhoi'r dewis i aelodau i wneud cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eu harian.

Mae amrywiol ffyrdd y gall aelodau ddefnyddio eu harian pan fyddant yn ymddeol, gan gynnwys fel swm crynswth di-dreth, buddsoddi mewn cynnyrch tynnu i lawr neu brynu blwydd-dal, fydd yn darparu incwm gwarantiedig am oes.

NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I USS

GWNEUD I FFWRDD Â CHYFATEBIAD Y CYFLOGWR

Fel rhan o weithredu'r rheol rhannu cost, bwriedir gwneud i ffwrdd â chyfatebiad y cyflogwr o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Byddai hyn yn gostwng uchafswm y cyfraniad cyfun sydd ei angen gan aelodau a chyflogwyr o 37.4% i 36.6% (mae'r gostyngiad fymryn yn is na 1% am nad yw pob aelod o USS ar hyn o bryd yn cymryd y cyfatebiad).

Petai'n cael ei dynnu ymaith, byddai unrhyw aelodau sydd ar hyn o bryd yn cymryd y cyfatebiad yn parhau i wneud eu cyfraniadau ychwanegol o 1% i Adeiladwr Buddsoddi USS, ond ni fyddai'r cyflogwyr bellach yn cyfatebu'r cyfraniadau hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen.


Gall unrhyw aelodau sydd am roi'r gorau i wneud y cyfraniad ychwanegol o 1% wneud hynny trwy ddefnyddio My USS.

CYNNYDD MEWN CYFRANIADAU

Dan y rheol rhannu cost, bydd cyfraniadau aelodau yn codi o'r gyfradd bresennol o 8% a bydd cyfraniadau'r cyflogwyr yn cynyddu o 18%.


Rhennir y cynnydd yn y cyfradd gyfraniadau gronedig 35:65 rhwng aelodau a chyflogwyr yn y drefn honno, a bwriada'r ymddiriedolwr ddod â'r codiadau mewn cyfraniadau i mewn yn raddol o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Mae codiadau mewn cyfraniadau yn gymwys i gyfanswm y cyflog, h.y., cyflog uwchlaw ac islaw'r trothwy cyflog (£57,216.50 ar hyn o bryd).



SUT Y BYDD Y CYFRANIADAU RHANNU COST YN CYLLIDO BUDDION USS

BETH A GYLLIDIR GAN CYFRANIADAU'R AELODAU



AR HYN O BRYD, MAE CYFRANIAD 8% YR AELODAU YN CYLLIDO:

8% o'r cyflog hyd at y trothwy cyflog (gan gynnwys 0.35% tuag at fuddion marwolaeth mewn gwasanaeth a buddion salwch) i Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.

8% o'r cyflog uwchlaw'r trothwy cyflog wedi'i gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS.



O EBRILL 2019 YMLAEN

DAN Y RHEOL RHANNU COST:

NEWID

Ar enillion hyd at y trothwy cyflog, bydd cyfraniadau i Adeiladwr Incwm Ymddeol USS yn cynyddu fesul cam, fel yr amlgyir yn y siart uchod*.

* Bydd y cyfraniad tuag at farwolaeth mewn gwasanaeth a salwch yn aros ar 0.35%

DIM NEWID


Ar enillion uwchlaw'r trothwy cyflog, bydd cyfraniadau i Adeiladwr Buddsoddi USS yn aros ar 8%.

NEWID

Ar enillion uwchlaw'r trothwy cyflog, gwneir cyfraniad ychwanegol i Adeiladwr Incwm Ymddeol USS, gan gynyddu fesul cam, fel yr amlgyir yn y siart uchod.

CYFRANIADAU'R CYFLOGWR*

AR HYN O BRYD, MAE CYFRANIAD Y CYFLOGWYR O 18% YN CYLLIDO:



DAN Y RHEOL RHANNU COST

O 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020, yn gronedig, pennwyd cyfraniadau i gwrdd â chost buddion newydd ond nid oes unrhyw gyfraniadau diffyg yn daladwy. Byddai cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwyr o 1 Ebrill 2019 ymlaen yn 19.5% ac o 1 Hydref 2019 yn 22.5%.

O 1 EBRILL 20202 YMLAEN:



ALLWEDD

- Yn adeiladu buddion (gan gynnwys buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a salwch) yn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.
- Am gyfraniadau adennill diffyg.
- Mynd i Adeiladwr Buddsoddi USS. Mae hyn ar hyn o bryd yn cynnwys cyfraniadau cronedig i dalu am gyfatebiad 1% y cyflogwr. Fodd bynnag, o Ebrill 2019 ymlaen, ni fyddai hyn yn cynnwys y cyfatebiad oherwydd byddai wedi ei dynnu ymaith.
- Talu costau rhedeg y cynllun.
- Cymhorthdal i gost rheoli buddsoddiadau.

*Seilir cyfraniad y cyflogwr ar gostau cronedig ar draws yr holl aelodau, ac nid yw hyn yn adlewyrchu rhaniad cost/cyfraniad pob aelod unigol.

Bydd y broses o rannu cost yn rhedeg ar wahân i waith y JEP, ond yn gyfochrog ag ef a bydd mewn grym hyd nes y gweithredir unrhyw benderfyniad wedi hynny gan y JNC ar newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau.

CYFRANIADAU UWCHLAW'R TROTHWY CYFLOG

Bydd aelodau sy'n ennill dros y trothwy cyflog (£57,216.50 am 2018/19) yn parhau i gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS.

Ar hyn o bryd, mae 20% o'r cyflog uwchlaw'r trothwy yn cael ei gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS: 8% gan yr aelodau a 12% gan y cyflogwyr.

Dan y cynnig, byddid yn parhau i fuddsoddi 20% yng nghynilion Adeiladwr Buddsoddi USS yr aelodau. Fodd bynnag, y cynnig yw i gyfraniadau ar gyflogau uwchlaw'r trothwy godi yn unol â'r cynnydd mewn cyfraniadau dan y rheol rhannu cost.

Byddai'r arian dros ben yn mynd tuag at gyllido adran Adeiladwr Incwm Ymddeol USS y cynllun.

Dan y cynnig, wrth i godiadau pellach mewn cyfraniadau gael eu cyflwyno'n raddol, byddai'r cyfraniadau uwchlaw'r trothwy cyflog hefyd yn codi. Fodd bynnag, byddai'r cyfraniadau a gynilwyd yn Adeiladwr Buddsoddi USS yn aros ar 20% cyfun.

Mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn dod dan y broses ymgynghori statudol a weithredir gan yr hysbysiad hwn.

Cynhelir ymgynghoriad rhwng pob cyflogwr (sy'n cymryd rhan yn USS), gweithwyr y gall unrhyw newidiadau effeithio arnynt a chynrychiolwyr y gweithwyr.

Mae'r buddion pensiwn a gronwyd eisoes gan aelodau wedi eu diogelu dan y gyfraith a chan reolau'r cynllun.

DIM NEWIDIADAU ARFAETHEDIG ERAILL I FUDDION ADEILADWR INCWM YMDDEOL USS

Er y gall y JNC cynnig newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol (gan gynnwys rhai yn dilyn adroddiad y JEP), ni chynigir unrhyw newidiadau eraill i fuddion yr aelodau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, ond gallai'r adborth arwain at newidiadau i fuddion. Bydd cyfraniadau'r aelodau a'r cyflogwyr ar ran aelodau yn parhau i gronni ar yr un gyfradd o 1/75 hyd at y trothwy cyflog yn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS, ac yn parhau i gael eu buddsoddi yn Adeiladwr Buddsoddi USS (lle mae aelodau yn ennill dros y trothwy cyflog neu yn gwneud cyfraniadau ychwanegol).

- Bydd buddion diffiniedig aelodau yn parhau i gael eu cynyddu, yn fras yn unol â chwyddiant.
- Cyhyd ag y byddant yn aelodau gweithredol o'r cynllun, bydd aelodau yn parhau i gael yr un buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a salwch.
- Bydd gan yr aelodau hawl o hyd i'r un taliadau pensiwn a swm crynswth o Adeiladwr Incwm Ymddeol USS wedi iddynt ymddeol.
- Bydd Adeiladwr Buddsoddi USS yn parhau i fod ar gael i aelodau sydd eisieu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu drosglwyddo i mewn.
- Gall aelodau barhau i ddewis rheoli eu cronfeydd Adeiladwr Buddsoddi USS eu hunain neu ddewis i'r ymddiriedolwr wneud hynny ar eu rhan.

Mae'r holl fuddion diffiniedig a gronwyd eisoes gan aelodau yn USS yn ddiogel ac wedi eu gwarchod dan y gyfraith a chan reolau'r cynllun.



YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle i rannu eich barn am:

- Y bwriad i wneud i ffwrdd â chyfatebiad y cyflogwr;
- Y newid i gyfraniadau o ganlyniad i'r cynigion rhannu cost;
- Sut y byddai'r cyfraniadau hynny yn cael eu cyflwyno'n raddol hyd at 1 Ebrill 2020;
- Cynigion amgen neu ychwanegol a allai yn eich barn chi hefyd ymdrin â'r heriau a nodwyd ym mhrosiect 2017 a rhannu unrhyw sylwadau eraill.


Dylai aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fynd at www.usconsultation2018.co.uk am fwy o wybodaeth ac i adael eu hymatebion.

DYDDIADAU ALLWEDDOL



BETH I WNEUD NESAF

Dylai aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fynd at www.ussconsultation2018.co.uk ac adolygu'r wybodaeth am y newidiadau arfaethedig a'r broses ymgynghori.



Aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau

Gall aelodau, gweithwyr cymwys a chynrychiolwyr aelodau fewngofnodi i:

www.ussconsultation2018.co.uk

O 9 am ar 3 Medi.